# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Medi 2013 yn Siambr Dafydd Orwig, Cyngor Gwynedd, Caernarfon. Dechreuodd y cyfarfod am 10.45am.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P H Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon, R Simmons a R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) a S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGAN BUDDIANT

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 MEHEFIN 2013

2.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ddydd 17 Mehefin 2013 i'w cymeradwyo.

2.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Prosiect Llywodraeth Cymru ar y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru 2013 – rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau i gyfarfod o'r gweithgor gael ei gynnal yn ddiweddar. Roedd y prosiect i gael ei gwblhau ym mis Hydref 2013, ond efallai y bydd oedi oherwydd, yn rhannol, y gweithredu diwydiannol sydd yn yr arfaeth.

4 YR ANGHYDFOD DIWYDIANNOL

4.1 Nodwyd y byddai'r anghydfod diwydiannol yn cael ei drafod yn rhan II.

4.2 **PENDERFYNWYD trafod yr anghydfod diwydiannol yn ystod rhan II o'r agenda.**

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Mehefin a Medi 2013 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 Dywedodd y Cadeirydd i'r cyfarfod â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn un cadarnhaol. Roedd y tri Chadeirydd wedi pwysleisio mor bwysig yw cadw'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru ac wedi tynnu sylw at lwyddiant y gwaith ataliol yn gostwng nifer y digwyddiadau yng Nghymru.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 YR YMGYNGHORIAD AR AMCANION GWELLA 2014-15

6.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo cynnwys y ddogfen ymgynghori ar Amcanion Gwella drafft 2014-15.

6.2 Gan fod yr Awdurdod yn un o'r awdurdodau gwella Cymreig, mae'n ofynnol iddo wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a gosod Amcanion Gwella iddo'i hun bob blwyddyn, ar ôl ymgynghori'n gyntaf ynghylch yr amcanion hynny gyda chynrychiolwyr partïon sydd â diddordeb. Rhaid cyhoeddi'r cynllun gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi.

6.3 Dywedodd y DBST fod Aelodau Gweithgor y Cynllun Gwella wedi ystyried amrywiaeth o wybodaeth i gynorthwyo'r drafodaeth wrth ddatblygu amcanion gwella, a hefyd wedi ystyried y risgiau a'r cyd-destun y mae GTAGC yn gweithio o'i fewn. Nodwyd bod llwyddiant yr Awdurdod wedi dod o ganlyniad i fod yn gyson o ran yr hyn y mae'n dymuno ei gyflawni, ac felly mae rhai o'r amcanion blaenorol wedi eu mireinio, gyda gostwng nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yn parhau i fod yn brif nod. Roedd Aelodau'r Gweithgor wedi talu sylw i'r hinsawdd ariannol sydd ohoni a'r canlyniadau a fyddai i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau petai'r gyllideb yn cael ei newid. Yr amcan gwella olaf yw edrych ar ofal tân mewn ardaloedd gwledig, a bydd hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i brofi ac asesu gwahanol ddulliau o ddarparu gofal tân mewn ardaloedd o'r fath.

6.4 Gofynnodd y Cyng. R E Parry pam fod yna gyfeiriad at 'siawns o gynnydd posib mewn galw' os oedd nifer y digwyddiadau tân wedi gostwng 26%. Eglurodd y DSBT fod y cynnydd posib oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio a bod mwy o bobl yn derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain, gan gynyddu'r risg o dân. Hefyd, esboniodd y DBST fod gan yr Awdurdod femoranda cyd-ddealltwriaeth gyda nifer o sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cynnal archwiliadau diogelwch tân yng nghartrefi eu cleientiaid. Mae hyn yn golygu bod modd cael cysylltiad ag aelodau bregus o'r gymuned na fyddai am ymwneud â'r Gwasanaeth yn uniongyrchol.

6.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys y ddogfen 'Ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru' at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus.**

7 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL (CYFNOD ADRODD 2012-2013)

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau i ail Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (Cyfnod Adrodd 2012-2013) i ymateb i ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

7.2 Esboniodd y PSTC Simmons y penderfynwyd mai da o beth fyddai llunio'r adroddiad yn hydref y flwyddyn adrodd, er mai dim ond ym mis Mawrth 2013 yr oedd yr Awdurdod wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol cyntaf. Felly, roedd adrannau a oedd ag amcanion cydraddoldeb yn cael cyfle i roi unrhyw newidiadau angenrheidiol ar waith yn barod erbyn y broses o gynllunio busnes y flwyddyn ganlynol.

7.3 Aeth y PSTC Simmons yn ei blaen i esbonio bod y Gwasanaeth, o ran cyflwyno gwasanaethau ac yn arbennig oherwydd bod gwaith Tasglu'r Prif Swyddog Tân wedi ei gyhoeddi yn 2007, wedi ceisio defnyddio gwybodaeth bwrpasol i ganfod y rhai sydd mwyaf mewn perygl o dân. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwnnw o reidrwydd yn cyrraedd y grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, felly bydd angen i'r Gwasanaeth, fel rhan o'i waith y flwyddyn nesaf, ganfod y grwpiau hynny o bobl er mwyn sicrhau nad oes mwy o risg o dân iddyn nhw nag i bobl eraill. Gwneir hyn drwy ddefnyddio grwpiau ffocws a dulliau eraill.

7.4 Gofynnodd y Cyng. McGuill a oedd y tîm addysg a'r tîm lleihau llosgi bwriadol yn targedu'r mannau sy'n broblemus o ran llosgi bwriadol. Cadarnhawyd bod rhai ardaloedd, sy'n hysbys am fod â risg o losgi bwriadol, yn cael eu targedu'n benodol, a bod y Gwasanaeth a'r heddlu'n cydweithio'n agos mewn perthynas ag achosion o losgi bwriadol. Fodd bynnag, atgoffwyd yr Aelodau mai'r heddlu sydd â'r prif gyfrifoldeb am ymdrin â llosgi bwriadol, gan mai trosedd ydyw.

7.5 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad, a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2013 i'w gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth.**

8 ALLDRO AMCANOL 2013-14

8.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn darparu i'r Aelodau alldro amcanol amcangyfrifiedig am flwyddyn ariannol 2013-2014 a gwybodaeth am y meysydd o orwariant a thanwariant.

8.2 I ymateb i gwestiwn gan y Dirprwy Gadeirydd ynglŷn â'r ffaith fod amcangyfrif o orwariant o £98,000 ar linell cludiant y gyllideb, nodwyd bod hyn wedi ei ragweld a'i fod yn ganlyniad i'r prosiect peilot ar argaeledd a oedd â'r nod o gynyddu argaeledd ar orsafoedd y system RDS. Roedd diffoddwyr tân amser cyflawn yn cael eu gwahodd i weithio oriau ychwanegol ar orsafoedd fel y bo angen, ac felly roedd costau teithio am fynd o un orsaf i'r llall. Mynegodd y Cyng. Pemberton bryder fod ddiffoddwyr tân amser cyflawn yn gweithio mewn gorsafoedd RDS, ac yn arbennig y byddai hyn yn sefydlu patrwm gwaith annerbyniol i'r dyfodol.

8.3 Gofynnodd y Cyng. Skelland am y gorwariant ar gostau cyfrifiadurol. Esboniodd y PSTC Claydon fod awdurdodau lleol ledled y gogledd yn defnyddio'r system Fleetwave newydd. Mae hynny'n golygu cydweithio, a gobeithio y bydd hyn yn talu ar ei ganfed yn y dyfodol er gwaethaf y ffaith fod yn rhaid gwario ar y cychwyn.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi'r tanwariant o £497,770.**

9 DATGANIAD O GYFRIFON 2012-13

9.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn gofyn am roi awdurdod dirprwyedig i'r Pwyllgor Archwilio i gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig am 2012-13 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

9.2 Esboniodd y Trysorydd na fu modd cyflwyno'r datganiad gorffenedig o gyfrifon i'r cyfarfod hwn oherwydd gwahaniaethau bychan yn yr amseriad rhwng cynnal y cyfarfod hwn a'r cyfarfod gyda'r archwilwyr a'r cyfrifwyr i gwblhau'r cyfrifon yn derfynol. Cyflwynir y cyfrifon yn fanwl i'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Medi 2013, ac estynnwyd gwahoddiad i'r Aelodau hynny sydd heb fod ar y Pwyllgor Archwilio i ddod i'r cyfarfod os ydynt yn dymuno esboniad manwl o'r cyfrifon.

9.3 **PENDERFYNWYD rhoi awdurdod dirprwyedig am eleni i'r Pwyllgor Archwilio i gymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2012-13.**

10 ASESIAD DRAFFT O BERFFORMIAD YR AWDURDOD YN 2012-13

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r asesiad drafft o Berfformiad yr Awdurdod yn 2012-13. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi'r wybodaeth erbyn 31ain Hydref, a hynny yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

10.2 Roedd yr adroddiad yn darparu asesiad o'r modd yr oedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, ynghyd â'i gynnydd mewn perthynas â'r amcanion gwella y gosododd iddo'i hun ar gyfer y flwyddyn flaenorol (sef 2012-13). Roedd hefyd yn crynhoi'r gwaith ar y cyd a wneir gan yr Awdurdod, a'i berfformiad mewn perthynas â dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol, a mesurau llwyddiant. Nodwyd y gallai fod rhai mân ddiweddariadau i'r data allanol cyn eu cyhoeddi.

10.3 Atgoffwyd yr Aelodau gan y DBST eu bod wedi cael cyflwyniad cynhwysfawr ar y data perfformiad drafft yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin. Ers hynny, roedd y data wedi eu cwblhau'n derfynol, ac roedd y ddogfen yn rhoi trosolwg terfynol o asesiad yr Awdurdod. Cymerwyd amryw o gamau fel y gellid cadw'r gyllideb yr un fath dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r ddogfen asesiad o berfformiad yn dangos y camau a gymerwyd i sicrhau'r arbedion, a chadarnhaodd y DBST fod yr adroddiad alldro amcanol, a drafodwyd eisoes, yn dangos bod yr Awdurdod ar y targed i sicrhau'r arbedion angenrheidiol sy'n ofynnol erbyn diwedd blwyddyn 3.

10.4 Dywedodd y Cyng. Skelland ei fod yn falch o'r gostyngiad yn nifer y digwyddiadau tân dros y blynyddoedd yn ardal Gogledd Cymru, ond roedd yn nodi nad oedd cyfeiriad penodol at y sector rhent preifat yn yr adroddiad a'i fod yn pryderu am y risg o dân yn y mathau hyn o eiddo. Esboniodd y PST nad oedd yr adroddiad yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o gartrefi cymunedol. Yna, aeth y PST ymlaen i ddweud bod Tasglu'r PST yn 2007 wedi bod yn glir ynglŷn â'i ganfyddiadau am eiddo ar rent, a'i fod yn ffactor risg, ond roedd hefyd wedi canfod bod rhai pobl mewn mwy o risg o dân oherwydd eu ffordd o fyw yn hytrach nag oherwydd cyflwr y tai. Awgrymodd y Cadeirydd fod y Cyng. Skelland yn cysylltu â'i gyngor ei hun, fel yr awdurdod trwyddedu, er mwyn trafod y mater ymhellach.

10.5 Gofynnodd y Cyng. McGuill a oedd y Gwasanaeth yn cymryd rhan yng nghamau cynllunio awdurdodau lleol pan ydynt yn codi adeiladau newydd megis ysgolion ac ysbytai. Cadarnhaodd y PST fod y Gwasanaeth yn un o'r rhai yr ymgynghorir ag ef drwy'r prosesau cynllunio a rheoli adeiladu, ac mae'n ymwneud â chamau cyntaf cynlluniau o'r fath.

10.6 Roedd y Cyng. Lowe yn teimlo bod yr asesiad o berfformiad yn adroddiad cadarnhaol, a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith. Teimlai bod yr adroddiad yn mynd ati i nodi'n glir y nodau a'r amcanion, y gwelliannau y mae'r Awdurdod yn gweithio tuag atynt, ac o ystyried y cyfyngiadau o ran y gyllideb, ystyriai fod y ffigyrau perfformiad yn dipyn o lwyddiant i'r Awdurdod.

10.7 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r asesiad drafft o Berfformiad yr Awdurdod yn 2012-13 i'w gyhoeddi cyn y dyddiad terfynol statudol, sef 31 Hydref 2013.**

Gadawodd y Cyng. L A W Jones y cyfarfod ar yr adeg hon.

11 Y COMISIWN AR LYWODRAETHU A DARPARU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

11.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnwys ymateb yr Awdurdod i'r cais am dystiolaeth gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus.

11.2 Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfres o ddiwygiadau ac adolygiadau i gryfhau'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn effeithlon, effeithiol a hygyrch. Ym mis Ebrill 2013, sefydlwyd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus gan Brif Weinidog Cymru.

11.3 Cafodd yr Aelodau grynodeb byr gan y PST o'r cyfarfod a gafodd y tri Phrif Swyddog Tân gyda'r Comisiwn. Fel yr adroddwyd eisoes gan y Cadeirydd, roedd gan Aelodau'r Comisiwn ddiddordeb mawr yng ngwaith y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, y dull o ymdrin â'r gwaith ataliol, a gwaith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

11.4 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad a'r holiadur wedi ei lenwi ac a anfonwyd i'r Comisiwn.**

12 Y PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL

12.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân ddiweddariad i'r Aelodau am y gwaith a wneir dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y PMC ym mis Gorffennaf 2013.

12.2 Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad o waith y PMC yn ystod blwyddyn gyntaf ei fodolaeth, ac roedd yn falch o'i hynt hyd yn hyn. Erbyn hyn, roedd y Swyddfa wedi awgrymu y dylai'r PMC ganolbwyntio ar nifer fechan o brosiectau a fydd yn sicrhau'r arbedion mwyaf. Roedd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ar y Pwyllgor hefyd, a dywedodd y Cadeirydd fod gwaith rhagorol yn mynd ymlaen a bod y swyddogion yn gweithio'n galed, gan ymgymryd â gwaith y PMC yn ogystal â'u llwyth gwaith eu hunain.

12.3 Nodwyd mai'r arbedion effeithlonrwydd hyd yn hyn oedd £2.6 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd, a bod hyn yn ychwanegol at yr arbedion a sicrhawyd gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn unigol.

12.4 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.**

Gadawodd y Cyng. P W Owen y cyfarfod ar yr adeg hon.

13 BWRDD RHANBARTHOL CYMUNEDAU DIOGELACH

13.1 Rhoddodd y Dirprwy Glerc ddiweddariad ynglŷn â gwaith y Bwrdd Cymunedau Diogelach. O Ebrill 2014 ymlaen, bydd un cynllun diogelwch cymunedol ar gyfer y rhanbarth, a dyma fydd y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Fel rhan o'i waith, bydd y Bwrdd yn parhau â'i waith gydag Adrannau Tai mewn perthynas â lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gallai hynny fod yn gymorth gyda'r problemau llosgi bwriadol y cyfeiriwyd atynt eisoes yn gynharach yn y cyfarfod.

13.3 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.**

14 COFNODION ER GWYBODAETH

14.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn er gwybodaeth:

- cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2013
- cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2013.

14.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

Gadawodd y Cyng. R Davies y cyfarfod ar yr adeg hon.

RHAN II – Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes(eitemau busnes) canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

15 YR ANGHYDFOD DIWYDIANNOL

15.1 Rhoddodd y PST ddiweddariad cynhwysfawr i'r Aelodau ynglŷn â'r anghydfod diwydiannol rhwng Undeb yr FBU a gweinidogion y Llywodraeth ynghylch materion pensiynau. Roedd Undeb yr FBU wedi gofyn i'w haelodau bleidleisio, a chyhoeddwyd y canlyniad ar 29ain Awst. Roedd y canlyniad y bleidlais yn gryf o blaid streicio.

15.2 Rhoddodd y PST wybod i'r Aelodau fod gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gynlluniau cadarn wrth gefn rhag ofn y bydd llafur yn cael ei dynnu ymaith, a bod y cynlluniau'n ddatblygedig iawn ac yn barod i'w gweithredu pan gyhoeddid dyddiadau'r streic. Nodwyd na fydd y Gwasanaeth yn gwneud gwaith anstatudol yn ystod unrhyw streic. Cadarnhaodd y PST y bydd yn parhau i roi gwybod i'r Aelodau am y datblygiadau.

15.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

16 GORSAF DÂN AC AMBIWLANS AR Y CYD WRECSAM

16.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am y sefyllfa bresennol o ran yr orsaf dân ac ambiwlans ar y cyd yn Wrecsam. Hefyd, darparwyd y canlynol yr Aelodau:

- arfarniad o'r opsiynau costau a ddarparwyd gan yr ymgynghorwyr annibynnol (sef JDH Business Services Ltd) a gynhaliodd yr adolygiad "archwiliad iechyd" o'r prosiect;
- dadansoddiad o gostau a budd, gan wneud cymhariaeth rhwng y gost o barhau â'r prosiect ar y cyd a'r opsiwn o ailadeiladu ar Ffordd Bradley;
- cynllun arfaethedig yn dangos gosodiad y safle.

16.2 Rhoddodd y PSTC Claydon wybod i'r Aelodau am y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod. Roedd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wedi cyfarfod â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac roedd yntau wedyn wedi comisiynu Partneriaeth Cyd-wasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Cyfleusterau (NWSSP-FS) i gynnal adolygiad annibynnol o'r prosiect a'r cynlluniau technegol. Bu'r adolygiad o fudd i'r prosiect cyfan, gan ei gwneud yn bosibl i fynd i'r afael â nifer o broblemau, a'u datrys. Felly, roedd y dadansoddiad o fudd wedi ailgadarnhau gwerth cael safle ar y cyd, ac mae adleoli'r cyfleuster hyfforddi wedi lliniaru'r pryderon ynglŷn â llifogydd.

16.3 Diolchodd y Cyng. Pemberton i'r swyddogion am eu holl waith yn symud y prosiect yn ei flaen. Ategodd y Cyng. Lowe y sylwadau a llongyfarch y swyddogion am eu hamynedd a'u proffesiynoldeb, ac roedd hefyd yn falch o nodi cyfranogiad y Gweinidog Llywodraeth leol a Busnes y Llywodraeth.

16.4 **PENDERFYNWYD**

- **(i) nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau;**
- **(ii) adfer y rhaglen waith ar y prosiect ar y cyd ag YGAC ar Ffordd Croesnewydd.**